

Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf
Heol y Bont
Ystum Taf
Caerdydd
CF14 2JL

Ffôn - 02920333090
Ffacs - 02920333091
E-bost - hysbys@glantaf.cardiff.sch.uk
Wefan - www.glantaf.cardiff.sch.uk



Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf
Bridge Road
Llandaff North
Cardiff
CF14 2JL

Phone - 02920333090
Fax - 02920333091
E-Mail - hysbys@glantaf.cardiff.sch.uk
Website - www.glantaf.cardiff.sch.uk

Awst 28ain

Annwyl Rieni / Warcheidwad,

Dechrau Blwyddyn Medi 2020

Mae'n hyfryd edrych ymlaen at groesawu disgyblion yn ôl i'r ysgol ar ddechrau'r tymor, wrth ddechrau blwyddyn newydd mewn amgylchiadau ac awyrgylch unigryw. Yr hyn sy'n aros yr un peth, yw ein bwriad i ddarparu pob cymorth a gofal i'ch plant wrth iddynt ail-ymgartrefu yng nghymuned yr ysgol a derbyn y cyngor a'r addysg orau bosib gyda ni yng Nglantaf. Mae'n arbennig o hyfryd croesawu disgyblion BI7 atom, ynghyd a disgyblion o ysgolion eraill, gan obeithio y bydd ein cynlluniau sefydlu yn sicrhau eich bod yn teimlo'n gartrefol yn gyflym yn yr ysgol. Croeso yn ôl i bob un ohonoch!

Dechrau newydd

Hoffwn hefyd gyflwyno fy hun fel Pennaeth newydd yr ysgol. Er sefyllfa unigryw addysg yng nghyfnod Covid-19, rwy'n wirioneddol gyffrous i ymuno â chymuned Glantaf, i adeiladu perthnasoedd newydd cadarn gyda disgyblion, staff, rhieni a'r gymuned ehangach ac i arwain yr ysgol yn y ddegawd newydd hon. Ers naw mlynedd bŵm yn Bennaeth Ysgol Gymraeg Ystalyfera – Bro Dur yng Nghastell-nedd Port Talbot, a chyn hynny, gyfnodau yn ysgolion Garth Olwg, Plasmawr a Gwynllyw. Edrychaf ymlaen yn arw at weithio gyda chi gan hwyluso partneriaeth effeithiol tair ffordd rhwng disgyblion, ysgol a chithau fel rhieni, a hynny er lles a llwyddiant pob disgybl unigol yn yr ysgol. Hoffwn hefyd groesawu staff addysgu newydd i'r ysgol, Ms Lucy Rolfe a Ms Katy Edwards (Adran Saesneg); Ms Ffion Jenkins (Hanes); Mr Llyr Gwynedd (Gwyddoniaeth); Mr Ceri Morris (Add Gorff); Mr Owen Pocock (Ffrangeg); Ms Gwenfra Jones (Celf) a Ms Nia Wilson (Ganolfan ADY), croeso mawr i gymuned ddysgu Glantaf!



Llongyfarchiadau

Hoffwn longyfarch yn gynnes iawn, ddisgyblion a dderbyniodd eu graddau Safon Uwch, UG a TGAU / BTEC yn ystod yr haf. Mae'n hyfryd nodi bod bron pob disgybl wedi derbyn lle yn eu dewis cyntaf neu ail o ran Coleg neu Brifysgol a hoffwn ddiolch iddynt oll am eu gwaith, eu cyfraniad i'r ysgol a'u llongyfarch yn gynnes ar eu llwyddiant. Edrychwn ymlaen at groesawu nifer fawr o FI11 yn ôl i'r Chweched i barhau gyda ni, yma yng Nglantaf.

Dychwelyd i'r ysgol

Rydym yn edrych ymlaen at groesawu pob plentyn yn ôl atom yn ystod pythefnos cyntaf y tymor, a phob disgybl yn llawn amser o **Ddydd Mercher 9fed o Fedi**. (gweler isod)

Wrth gwrs, byddwn yn sicrhau safonau uchel iechyd a diogelwch wrth i ni dychwelyd i'r ysgol a fydd yn cynnwys y mesurau isod:

- Bydd gorsafoddi diheintio a golchi dwylo ar draws yr ysgol a gofynnwn yn garedig i bawb sicrhau safonau glendid dwylo yn gyson.
- Bydd disgyblion BI 7-8 yn aros yn yr un dosbarth am y mwyafrif helaeth o'u gwersi (er yn symud i ystafelloedd arbenigol yn achlysurol), a hynny er mwyn lleihau newid dosbarthiadau. Bydd hyn yn creu ardal unigol i bob blwyddyn ysgol, sy'n lleihau cymysgu cymdeithasol.

- Bydd blynyddoedd yn aros yn eu swigen (bybl) am y rhan fwyaf o'r dydd gan gynnwys amser egwyl a chinio.
- Bydd amseroedd egwyl a chinio yn cael eu newid fel bod disgyblion yn aros yn eu swigen / iard chwarae a ddim yn cymysgu â disgyblion o flynyddoedd eraill.
- Gofynnwn yn garedig i chi ddarparu pecyn bwyd, diod a byrbryd ar gyfer eich plentyn am na fyddwn yn gallu agor ein gwasanaeth arlwyo. Bydd gwasanaeth bwyd cyfyngedig yn agor o Fedi 14eg (mwy o fanylion i ddilyn).
- Bydd system un-ffordd ar draws campws yr ysgol (ble mae hynny'n bosib).
- Rydym yn argymhell yn gryf bod disgyblion yn dod â mwgwd neu orchudd wyneb gyda nhw i'r ysgol ac yn ei wisgo wrth symud o amgylch yr ysgol / ar fws ysgol neu mewn sefyllfaoedd lle nad yw pellhau cymdeithasol yn bosib. Bydd gan yr ysgol gyflenwad o fygydau yn gynnar yn y tymor. Ni fydd angen i ddisgyblion eu gwisgo mewn gwersi nac o fewn y dosbarth. Cyfrifoldeb y plentyn unigol yw glendid a gofal cywir o'u mwgwd personol.
- Bydd trafndiaeth ysgol arferol yn cael ei ddarparu, ond gofynnir i bob disgybl wisgo mwgwd er diogelwch fel sy'n arferol ar drafndiaeth cyhoeddus yng Nghymru.
- Bydd athrawon ac oedolion eraill yn cadw pellter o 2 fetr rhyngddynt a'i gilydd er mwyn sicrhau eu bod yn gallu dysgu mwy nag un dosbarth.
- Bydd disgyblion BI 9-13 yn newid dosbarthiadau oherwydd gofynion cwricwlaidd ond bydd lleihad yn y nifer o adegau y byddant yn symud ystafell.
- Gofynnwn yn garedig i chi sicrhau fod gan eich plentyn eu cas pensil gydag offer perthnasol oherwydd ni fyddwn yn gallu benthyg na rhannu offer rhwng disgyblion.
- Ar adegau byddwn yn gofyn / disgwyl i ddisgyblion lanhau a diheintio eu desgiau eu hunain cyn symud i ddosbarth newydd.
- **Rhaid i unrhywun sydd â symptomau Covid-19, neu sydd yn byw gyda rhywun sydd â symptomau sicrhau nad ydyn nhw'n dod i'r ysgol, a dilyn canllawiau hunan ynysu yn llawn.**
- Disgwylir i bob plentyn wisgo gwisg ysgol arferol safonol i'r ysgol. Gofynnwn yn garedig eich bod fel rhieni yn sicrhau fod y wisg yn lân ac o safon uchel bob dydd. Os oes gennych bryderon am wisg ysgol, cofiwch am ein dolen Facebook ble gallwch gael gwisg ysgol safonol ail-law yn rhad neu am ddim. <https://www.facebook.com/groups/gwisg.ysgol.glantaf/?ref=share>
- Os ydych angen ymweld â'r ysgol neu gael cyfarfod i drafod unrhyw fater, gofynnwn yn garedig i chi gysylltu o flaen llaw i wneud apwyntiad, oherwydd ni fyddwn yn gallu cwrdd â chi, heb drefniant blaenorol yn ystod yr wythnosau sydd i ddod.

Gweler isod dyddiad dychwelyd, mynedfa ac amseroedd cinio pob blwyddyn:

Blwyddyn	Dydd Dychwelyd yn llawn amser	Mynedfa	Amser Cinio
7	Dydd Iau, 3/9/20	Drws Bloc Gwyddoniaeth	12.10 - 1.00pm
8	Dydd Mercher 9/9/20	Drws ger y Neuadd Chwaraeon	12.10 – 1.00pm
9	Dydd Mawrth 8/9/20	Drws i'r Adran Addysg Gorfforol	1.10 – 2.00pm
10	Dydd Llun 7/9/20	Drws o faes Parcio'r Bysiau	1.10 – 2.00pm
11	Dydd Gwener 4/9/20	Prif Fynedfa	12.10 – 1.00pm
12	Dydd Iau 3/9/20	Prif Fynedfa	1.10 – 2.00pm
13	Dydd Gwener 4/9/20	Prif Fynedfa	1.10 – 2.00pm

Cyrraedd yr ysgol

Bydd staff ar ddyletsydd yn y bore i groesawu disgyblion ond gofynnwn yn garedig i ddisgyblion beidio â chyrraedd cyn 8.10am, am nad oes gennym ardaloedd (yn enwedig ar dywydd gwlyb) lle gallant aros i ddechrau'r dydd. Dylai pob disgybl gyrraedd yr ysgol erbyn 8.20am a mynd yn syth i'r dosbarth cofrestru. Bydd disgyblion yn gadael yr ysgol mewn modd trefnus gan sicrhau pellter cymdeithasol cywir ar ddiwedd y dydd. Gallai hyn olygu y bydd y bysiau ysgol yn gadael ychydig yn hwyrach nag arfer.

Hwb

Yn ystod yr wythnosau nesaf byddwn yn mudo system gyfathrebu yr ysgol i'r llwyfan ddysgu genedlaethol, sef **Hwb**. Bydd hyn yn golygu y bydd eich plentyn yn derbyn e-bost a manylion mewngofnodi **Hwb** sy'n golygu y bydd yn gallu defnyddio holl raglenni (Pecyn Microsoft Word, Excel Powerpoint ac ati) **am ddim** ynghyd â holl adnoddau addysgu o bell yn y Gymraeg ac yn y Saesneg. Byddwn yn trefnu sesiynsau penodol i'ch plentyn ar **Hwb** ac yn cyflwyno'r holl ddisgyblion i systemau Microsoft Teams er mwyn sicrhau ein bod yn gallu cysylltu â nhw a pharhau i addysgu pe bai cyfnod arall o gyfyngiadau ar ysgolion. Bydd hyn wrth gwrs yn adeiladu ar y gwaith da sydd wedi ei gyflawni eisoes drwy Google Classrooms, er mwyn cefnogi a chynnal eich plentyn.

Profedigaeth

Profodd gymuned yr ysgol golledion garw yn ystod y misoedd diwethaf, gan gynnwys athro a wnaeth gyfraniad gyrfa gyfan yma yng Nglantaf. Roedd Mr Keri Evans yn athro arbennig, yn Arweinydd Bugeiliol gofalgar, yn ŵr bonheddig, uchel ei barch a wnaeth gyfraniad nodedig i gymuned yr ysgol ac yn ehangach. Roedd yn deimladwy dan amgylchiadau anodd i weld gymaint o gymuned yr ysgol yn talu teyrnged ddiwyll ac urddasol iddo yr wythnos hon. Cofiw'n hefyd am Mrs Ethni Jones, a fu'n gyfaill, yn gyn-athrawes, rhiant a chefnogwraig brwd o'r ysgol yn arbennig wrth sefydlu a sicrhau Canolfan Addysg Arbennig yn yr ysgol. Roedd yn unigolyn â brwdfrydedd, llawenydd ac egni aruthrol dros addysg cyfrwng Cymraeg, ac yn gymwynaswraig triw i'w chymuned a'i chenedl. Trist hefyd yw cydymdeimlo â chymuned Ysgol Mynydd Bychan wrth golli mor sydyn, Gadeirydd y Llywodraethwyr Mrs Emma Goad, sydd hefyd yn rhiant annwyl gyda ni yma yng Nglantaf. Anfonwn ein cydymdeimlad cywir a mwyaf didwyll i'r teuluoedd rhain ac â phob un ohonoch sydd wedi profi colled mewn cyfnod mor anodd.

Cysylltu â ni

Ar ddiwedd cylchlythyr cyntaf y flwyddyn academiaidd, rwy'n gobeithio ichi fwynhau ychydig o hamdden yn ystod misoedd yr haf yng nghwmni eich gilydd. Rwy'n edrych ymlaen at weithio gyda chi yn egniol er lles a chynnydd pob disgybl yng Nglantaf dros y blynyddoedd nesaf. Os hoffech drafod unrhyw fater neu am fwy o fanylion cysylltwch â ni ar bob cyfrif yn yr ysgol.

Yn gywir,



Matthew H T Evans

Pennaeth